| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **17 Rhagfyr 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams,<br>Aelod Arweiniol Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg** |
| **Teitl:** | **Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog** |

---

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi gwybod i Aelodau'r Cabinet am ganfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog a gofyn am gymeradwyaeth i gyhoeddi'r cynigion statudol gofynnol ar gyfer cau'r ddwy ysgol a chreu ysgol ardal newydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i gymeradwyo'r cam nesaf ar gyfer creu ysgol newydd i wasanaethu yn lle'r Ysgol Clocaenog a'r Ysgol Cyffylliog bresennol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhellion yw:-

i) Nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ac agor ysgol ardal newydd ar y ddau safle presennol;

ii) Cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ar gyfer cau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar 31 Awst 2014 ac agor ysgol ardal newydd ar y safleoedd presennol ar 1 Medi 2014;

iii) Cadarnhau'r ymrwymiad i gymryd camau i ddarparu ysgol ardal newydd ar un safle os bydd cyllid cyfalaf ar gael.

## 4. Cefndir y Cynnig

4.1 Ym mis Tachwedd 2012, rhoddwyd cymeradwyaeth gan Gabinet Cyngor Sir Ddinbych i ddechrau'r adolygiad o 11 ysgol gynradd yn ardal Rhuthun. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad anffurfiol yn ystod Chwefror a Mawrth 2013. Pwrpas yr ymgynghoriad anffurfiol hwn oedd ystyried yr holl opsiynau ar gyfer dyfodol addysg yn yr ardal a chyflwyno dewis o gynigion a fyddai'n caniatáu buddsoddi i wella cyfleusterau addysgol gan ostwng lefel gyffredinol y lleoedd ysgol gwag yn yr ardal yr un pryd.

4.2 Ar 25 Mehefin 2013, cymeradwyodd y Cabinet chwe chynnig: gweler y manylion yn Atodiad 1. Mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag un o’r cynigion.

## 5. Manylion yr Adroddiad – Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog

5.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi ymgynghori’n ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog ar 31 Awst 2014 a sefydlu ysgol ardal newydd ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2014. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ffurfiol rhwng 9 Medi 2013 a 22 Hydref 2013. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys nifer o gyfarfodydd i randdeiliaid a holiadur i gael barn y plant a’r rheini. Cawsom 23 o lythyrau a negeseuon e-bost, 12 o ffurflenni ymateb ar-lein a 25 o ffurflenni ymateb drwy’r post.

<u>Canfyddiadau’r Ymgynghoriad Ffurfiol</u>

5.2 O’r 60 o ymatebion a gafwyd, roedd 37 yn gysylltiedig ag Ysgol Clocaenog a 20 yn gysylltiedig ag Ysgol Cyffylliog (gweler Atodiad 2). Roedd tri ymatebydd a oedd heb ddatgan cysylltiad. Cafwyd 36 o ymatebion o blaid y cynnig a 22 o ymatebion yn erbyn y cynnig. Mynegwyd y farn ganlynol gan ymatebwyr:

- Iaith yr ysgol newydd – roedd ymatebwyr y ddwy ysgol am gadw eu categori iaith penodol gan nodi y byddai ei newid yn cael effaith negyddol.
- Roedd rhieni’r ddwy ysgol wedi mynegi pryderon ynghylch cludo disgyblion gan gyfeirio at addasrwydd y ffyrdd, addasrwydd y cludiant ar eu cyfer, trefniadau logistaidd a hyd y teithiau.
- Roedd y ddarpariaeth addysg yn destun pryder i ymatebwyr a gyfeiriodd at wahaniaethau mewn safonau rhwng y ddwy ysgol a’r posibilrwydd y bydd y dosbarthiadau’n fwy. Roedd cefnogaeth i leihau’r ystod oedran a addysgir ym mhob dosbarth.
- Cam 1 – Mynegwyd barn negyddol gan ymatebwyr am y cynnig i gael un ysgol ar ddau safle (y cynnig presennol) a nodwyd bod rhannu brodyr a chwiorydd a threfn arfaethedig yr ystafelloedd dosbarth yn destun pryder. Nododd nifer o ymatebwyr y gellid derbyn y cynnig yn y tymor byr fel cam cyntaf tuag at sefydlu ysgol newydd.
- Cam 2 – Roedd cefnogaeth sylweddol i’r cynnig i gael un ysgol ardal wedi’i hadeiladu’n bwrpasol er bod ymatebwyr yn mynegi amheuon ynghylch ei lleoliad, ei maint arfaethedig a nifer y disgyblion a dderbynnir, y gallu i sicrhau cyllid a’r posibilrwydd o gyflawni’r cynnig oherwydd effaith prosiectau eraill sy’n cystadlu am gyllid.
- Roedd amserlen y prosiect yn destun pryder sylweddol i ymatebwyr. Roedd pryderon y byddai trefniant lle’r oedd un ysgol ar ddau safle am gyfnod hir yn cael effaith niweidiol ar y niferoedd a dderbynnir i’r ysgol yn y dyfodol ac yn colli cefnogaeth rhieni. Roedd ymatebwyr yn nodi ei bod yn bwysig rhoi gwybod i rieni am yr amserlen ar gyfer codi’r ysgol newydd.

5.3 O’r rheini a atebodd y cwestiwn ynghylch a fyddent yn anfon eu plentyn i’r ysgol newydd ar y ddau safle:

- 74% a oedd wedi nodi y byddent yn gwneud;
- 26% a oedd wedi nodi na fyddent yn gwneud.

5.4 Cynhyrchwyd fersiwn o’r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant (Atodiad D) a chafodd ei dosbarthu i ddisgyblion y ddwy ysgol. Cafwyd y prif ymateb gan blant o ganlyniad i gyfarfodydd ymgynghori a drefnwyd â’r ddau gyngor ysgol. Roedd y dadansoddiad o’u hymatebion yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yr ymgynghorwyd â nhw yn credu bod y cynnig yn syniad da a bod mwy o gefnogaeth ymhlith disgyblion yn Ysgol Clocaenog. Roedd disgyblion y ddwy ysgol wedi nodi mai’r fantais o uno’r ddwy ysgol oedd y byddai ganddynt fwy o ffrindiau er bod pryderon tebyg wedi’u mynegi ynghylch rhannu brodyr a chwiorydd rhwng y ddau safle, newid athrawon ac amser teithio hirach.

Y Ffordd Ymlaen

5.5 Mae ymatebwyr wedi dangos yn glir fod cefnogaeth i’r cynnig i gael ysgol ardal i wasanaethu’r ardal wledig i’r gorllewin o Ruthun. Mae llawer mwy o gefnogaeth i gam dau nag i gam un ac roedd ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig wedi nodi eu bod yn cefnogi’r trefniant o un ysgol ar ddau safle fel ffordd o gyrraedd y nod yn hytrach na’i ystyried yn ateb tymor hir dymunol.

5.6 Felly ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, yr argymhelliad yw bod y Cyngor yn symud ymlaen i gyhoeddi hysbysiad statudol wedi’i seilio ar y cynnig presennol. Mae’r farn wreiddiol, sef na fydd y trefniant o ddwy ysgol ar wahân yn ateb y problemau sy’n wynebu’r ddwy ysgol, yn parhau’n gadarn.

5.7 Bydd angen cyhoeddi Hysbysiad Statudol sy’n rhoi rhybudd o 28 diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn o 28 diwrnod bydd unrhyw un sydd am wrthwynebu’r cynnig yn cael cyfle i wneud hynny. Er mwyn eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid eu cyflwyno drwy lythyr neu drwy’r e-bost, a’u hanfon at y cynigydd o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi’r cynnig. Os cymeradwyir yr argymhelliad hwn, bwriedir cyhoeddi’r cynnig hwn ar 7 Ionawr 2014 a bydd y cyfnod ar gyfer gwrthwynebu’n dod i ben ar 3 Chwefror 2014.

5.8 Ar ôl y dyddiad hwn, bydd angen i’r Cyngor gyhoeddi adroddiad ar wrthwynebiadau a gofynnir i’r Cabinet arfer ei bwerau newydd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynir a phenderfynu a fydd yn gweithredu’r cynnig.

Goblygiadau o ran Cyfalaf

5.9 Yn y ddogfen ymgynghori nodwyd yr ymrwymiad hirdymor gan Gyngor Sir Ddinbych i geisio buddsoddi mewn safle ysgol newydd i gymryd lle’r safleoedd presennol yng Nghlocaenog a Chyffylliog. Er mwyn gallu sicrhau cyllid bydd yn ofynnol cynnal dadansoddiad pellach o safleoedd i gadarnhau bod y safleoedd a nodwyd yn ardal Clocaenog yn addas ac wedyn symud ymlaen i gyflwyno achos busnes er mwyn sicrhau’r cyllid angenrheidiol ar sail y canfyddiadau mewn astudiaeth ddichonoldeb.

5.10 O dan Gynllun Corfforaethol y Cyngor, cytunwyd mewn egwyddor i neilltuo tua £23 miliwn i weithredu ar y canfyddiadau o adolygiadau ardal ac ar flaenoriaethau eraill. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o’r cyllid hwn ar gael i’w

fuddsoddi mewn ysgolion, ar yr amod bod yr holl aelodau etholedig yn parhau'n gefnogol, o 2016/17 ymlaen yn bennaf. Er mwyn i Aelodau gytuno ar unrhyw ddyraniad cyfalaf, bydd angen cael achos busnes clir sy'n dangos pam y dylid buddsoddi a'r goblygiadau hirdymor tebygol o ran refeniw a chyfalaf o symud ymlaen â phob prosiect. Mae Atodiad 3 yn dangos y cyllid sydd wedi'i ymrwymo ar gyfer prosiectau Band A Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif ynghyd ag enghreifftiau o'r gwahanol brosiectau y gellir eu hariannu o'r dyraniad hwn o £23 miliwn. Costau dangosol yw'r rhain ar hyn o bryd a byddent yn cael eu datblygu ymhellach cyn cymeradwyo unrhyw achosion busnes.

5.11 Ni fydd penderfyniad i symud ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi hysbysiadau statudol yn rhwymo'r Cyngor o reidrwydd ar hyn o bryd i ariannu'r ail gam. Bydd trafodaeth bellach ar y cynllun cyffredinol ar gyfer dyrannu'r £23 miliwn ar ôl cwblhau'r achosion busnes perthnasol.

## 6. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r cynnig yn hyrwyddo'r flaenoriaeth o "wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion" ac mae wedi'i nodi'n ffrwd waith fel a ganlyn:
"Byddwn yn parhau i adolygu'r ddarpariaeth o ysgolion ledled y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer priodol o leoedd ysgol, o'r math priodol, yn y mannau priodol."

## 7. Beth fydd ei gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

7.1 Bydd cost fach i'r Cyngor o gyhoeddi'r hysbysiadau statudol. Bydd hyn ar ffurf costau postio yn bennaf a chostau argraffu ar gyfer eu cyhoeddi. Mae'r gofyniad am gyhoeddi hysbysiadau o'r fath mewn papurau newydd lleol wedi'i ddileu bellach fel y bydd y costau am wneud hyn yn llai.

7.2 Os cymeradwyir yr argymhelliad, nodwyd y bydd angen dyrannu mwy o gyllid ar gyfer un ysgol ar ddau safle yn y cyfnod interim hwn. Ni fydd hyn yn cael effaith gyffredinol ar gostau'r Cyngor gan y bydd y costau uwch hyn yn cael eu hystyried yn rhan o'r fformiwla ariannu gyffredinol ar gyfer ysgolion ac yn cael eu talu o'r gyllideb gyfan ar gyfer ysgolion.

7.3 Er mwyn symud ymlaen at gam dau, bydd angen hefyd am gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y safleoedd posibl ac wedyn y safle a ffefrir. Cyflawnir y gwaith hwn gan staff yn y gwasanaeth Cyllid ac Asedau. Bydd costau'r gwaith hwn yn cael eu talu o'r dyraniad presennol ar gyfer maes blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol ar gyfer Moderneiddio Addysg yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

## 8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhelir ar gyfer y penderfyniad? Dylid atodi templed yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'r adroddiad ar ôl ei lenwi.

Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar gyfer y cynnig yn awgrymu y byddai cam cyntaf y cynnig yn cael effaith fach iawn. Byddai datblygu ysgol ardal yn creu mwy o allu i ymateb i amrywiadau yn nifer y disgyblion ac yn lleihau ystod oedran y disgyblion sy'n cael eu haddysgu gyda'i gilydd.

**9. Pa ymgynghori a gafwyd â'r Pwyllgor Sgriwtini ac eraill?**

Cafwyd ymgynghoriad llawn â'r holl randdeiliaid ac mae crynodeb o'r canfyddiadau o'r Ymgynghoriad Ffurfiol yng nghorff yr adroddiad.

**10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd yr effaith ariannol uniongyrchol ar y Cyngor o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn fach, ac yn codi o gostau postio ac argraffu yn y lle cyntaf. Bydd y cynnydd yn y costau a ysgwyddir drwy weithredu un ysgol ar ddau safle yn y cyfnod interim yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y fformiwla ariannu gyffredinol ar gyfer ysgolion ac felly ni fyddant yn effeithio ar anghenion cyllideb cyffredinol y Cyngor. Bydd cam 2 yn cynnwys buddsoddi cyfalaf sylweddol ond bydd trafodaeth bellach ar hyn ar ôl cwblhau'r achosion busnes perthnasol ac ystyrir yr adnoddau a fydd ar gael bryd hynny. Yr uchelgais sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Corfforaethol yw dynodi cyllid o tua £23 miliwn i weithredu ar ganfyddiadau'r adolygiadau ardal a gwelliannau eraill. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf wedi dangos y bydd angen cyllid o tua £17 miliwn.

**11. Beth yw'r risgiau ac a oes rhywbeth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae posibilrwydd cryf y gall y cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol i'r Cyngor a sylwadau anffafriol gan y cyhoedd.
Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n glir â'r holl randdeiliaid.

**12. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg (wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet yn Ionawr 2009)